

POLISI IAITH GYMRAEG

Mae Jones Bros wedi ymrwymo i drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail cyfartal i'r graddau y gallwn yn rhesymol wneud hynny. Gwnawn gynydd cyson tuag at wireddu'r uchelgais hwn ac mae'r Polisi yma'n nodi ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â defnyddio'r Gymraeg.

Cyfyngwyd ymrwymiadau'r polisi hwn i weithgareddau a gwasanaethau yng Nghymru, neu rai a ddarperir ar gyfer siaradwyr Cymraeg. Fe'u cyfyngwyd hefyd i wasanaethau y mae gennym reolaeth neu ddylanwad drostynt.

Bob tro y gellir gwneud hynny'n rhesymol, byddwn yn cynhyrchu deunydd cyhoeddus yn y Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys:

- Arwyddion parhaol ac arwyddion dros dro;
- Gwybodaeth ar ein gwefan;
- Hysbysebion recriwtio;
- Cyhoeddiadau;
- Deunydd marchnata ac arddangos

Os yw'n briodol ac yn bosibl, byddwn yn cyfathrebu gyda'n cysylltiadau busnes yn y Gymraeg. Gwyddom beth yw dewis iaith ein cysylltiadau busnes rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o'n staff yn ddwyieithog ac rydym yn eu hannog i gynnig y gwasanaeth hwn i bawb y cysylltwn â nhw. Mae hyn yn cynnwys:

- Sgyrsiau wyneb yn wyneb;
- Sgyrsiau ffôn;
- Gohebiaeth bapur ac electronig

Ceisiwn ddarparu siaradwyr Cymraeg lle bynnag y cynhaliwn gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru.

Fel darparwr hyfforddiant, mae Jones Bros yn asesu a chofnodi sgiliau iaith Gymraeg ymgeiswyr am swyddi o fewn y Ganolfan Hyfforddi. Mae'r rhan fwyaf o staff ein Canolfan Hyfforddi yn ddwyieithog a rhoddant hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg i unrhyw ddysgwyr sy'n dymuno hynny.

Defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn y gweithle fel sy'n briodol. Os oes pobl nad ydynt yn siarad Cymraeg yn bresennol mewn cyfarfodydd, defnyddir y Saesneg fel bob pawb yn deall yr hyn a ddywedir.

Mae ein cyhoeddiadau mewnol yn bennaf yn y Saesneg. Os gofynnir amdanynt yn y Gymraeg, ceisiwn eu darparu bob amser y mae'n rhesymol gwneud hynny.

Rydym yn annog pob contractwr neu drydydd parti sy'n darparu gwasanaethau yng Nghymru ar ein rhan i gydymffurfio â'r polisi hwn.



John Dielhof
Rheolwr gyfarwyddwr
5 Awst 2017